# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Mai 2018

Amser: 09.04 - 12.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4847

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Sayed AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jack Sargeant AC |
| Tystion: | Anna Whitehouse, Mother Pukka |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel – trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Jenny Rathbone AC a Gareth Bennett AC.

## 3 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth 6

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Anna Whitehouse, Sylfaenydd, Mother Pukka

3.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Anna Whitehouse i roi ystadegau y mae wedi'u casglu gan ei dilynwyr wrth baratoi at y sesiwn, yn ogystal ag enghreifftiau o ymarfer gan fusnesau.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

4.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

### 4.2 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch beichiogrwydd, mamolaeth a gweithio yng Nghymru

4.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â beichiogrwydd, mamolaeth a gweithio yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 3.